



Polisi ysgol i hyrwyddo mesurau ac arferion fydd yn arwain at ddefnyddio a lleihau ymyrraeth gyfyngol yn Ysgol Bro Idris

[A school policy to promote measures and practice that will lead to the safe use and reduction of restrictive practices Ysgol Bro Idris](#)

Ysgol Bro Idris

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Signed on behalf of the Chair of Governors:

Dyddiad Cymeradwyo: 11.12.2023

Date of approval

Dyddiad Adolygu:

Review date

Mae'r polisi hwn wedi'i greu gan weithwyr addysg proffesiynol ar draws y rhanbarth. Fe'i ddatblygwyd o ddogfen Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Lleihau Ymyrraeth Gyfyngol ' Ebrill 2022 [Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol | LLYW.CYMRU](#)

Dyddiad Polisi: Cyhoeddwyd gan Cyngor Gwynedd Rhagfyr 2023

This policy has been created by educational professionals across the region. It has been developed from the Welsh Government Document 'Reducing Restrictive practices framework' April 2022 [Reducing restrictive practices framework | GOV.WALES](#)

Date of Policy: Published by Cyngor Gwynedd December 2023



Cynnwys

1. [Geirfa](#)
2. [Cyflwyniad](#)
3. [Diben](#)
4. [Egwyddorion](#)
5. [Arweinyddiaeth](#)
6. [Eiriolaeth](#)
7. [Manteision Dulliau Ymarfer Canolbwyntio ar yr Unigolyn](#)
8. [Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006](#)
9. [Ymyrraeth gyfyngol](#)
10. [Cynllunio, adolygu ac adrodd](#)
11. [Dogfennaeth i gynllunio, cofnodi ac adrodd](#)
12. [Neilltuaeth](#)
13. [Ystyriaethau ymyrraeth gyfyngol](#)
14. [Dyletswydd gofal](#)
15. [Adolygu a chefnogaeth ar ôl y digwyddiad](#)
16. [Plant sydd mewn gofal](#)
17. [Datblygiad staff](#)
18. [Cofnodi'r defnydd o ymyrraeth gyfyngol a defnyddio data i wella ymarfer](#)
19. [Diogelu](#)
20. [Adolygu i leihau ymyrraeth gyfyngol](#)
21. [Gwybodaeth i rieni](#)
22. [Gweithrediad](#)
23. [Deddfwriaeth a pholisi](#)
24. [Cyfeiriadau deddfwriaethol](#)

Atodiadau



1. Geirfa

- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Pan fyddwn yn defnyddio'r term canolbwyntio ar yr unigolyn, mae hyn hefyd yn golygu canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer plant.
- **Person neu bobl:** Pan fyddwn yn defnyddio'r termau person neu bobl, mae hyn yn cynnwys pob plentyn a pherson ifanc (hyd at 18 oed).
- **Ymyraethau cyfyngol:** 'Mae ymyrraeth gyfyngol yn ystod eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud, neu'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallent fod yn amlwg iawn neu'n gynnil iawn.'
Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau sy'n cyfyngu ar bobl. Mewn perthynas â lleoliadau ysgol, mae'n cynnwys:
 - **gorfodaeth ataliaeth amgylcheddol** - Cyfyngu dysgwr i amgylchedd penodol: ac eithrio dysgwr o ardal y maent am fynd iddi; Cyfyngu mynediad i iard allanol neu ystafell eistedd; Atal dysgwr rhag gadael yr adeilad.
 - **ataliad corfforol** - Mae ataliad corfforol yn golygu ataliaeth sy'n cynnwys cyswllt corfforol uniongyrchol. Golyga ataliad corfforol gyswllt corfforol uniongyrchol sy'n atal neu'n cyfyngu yn sylweddol ar ryddid disgybl i symud.
 - **neilltuad neu wahaniad ynysu gorfodol** yw'r diffiniad gorau o ynysu dysgwr rhag eraill at ddibenion rheoli ymddygiad sydd yn tarfu.
- **Ymddygiad Heriol/ymddygiad sy'n herio:**
'Gellir disgrifio ymddygiad fel un heriol pan fydd o ddwyster, amllder neu hyd fel ei fod yn bygwth ansawdd bywyd a/neu ddiogelwch corfforol yr unigolyn neu eraill ac yn debygol o arwain at ymatebion sy'n gyfyngol, yn wrthdroadol neu sy'n arwain at waharddiad. (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Cymdeithas Seicolegol Prydain a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, 2007).
- **Cynllun Personol:** Yn y polisi hwn, mae'r term 'cynllun personol' yn cyfeirio at ystod o gynlluniau sy'n dibynnu ar y system o ymyrraeth gorfforol a ddefnyddir e.e. Cynllun Cefnogi Ymddygiad, Cynllun cymorth Unigol, Strategaeth Ymateb Unigol,
- **Ymarferwyr:** I ddibenion y polisi hwn, mae'r term ymarferwyr yn cynnwys pawb sy'n cael eu talu i weithio gyda phobl mewn ysgolion a lleoliadau addysg. Er bod hyn hefyd yn cynnwys Athrawon dan hyfforddiant, Gwirfoddolwyr a Myfyrwyr, ni fyddai'r grwpiau hyn yn cymryd rhan yn y rôl benodol o ymgymryd ag ataliad corfforol.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)



2. Cyflwyniad

Datblygwyd y polisi hwn i gyd-fynd â pholisi Cyngor Gwynedd a pholisi rhanbarthol ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg. 'Polisi rhanbarthol i hyrwyddo mesurau ac arferion fydd yn arwain at ddefnyddio ymyrraeth gyfyngol mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn ddiogel a'u lleihau' 2022.

Mae'n amlinellu amodau ar gyfer defnyddio ymyrraeth gyfyngol. Cytunwyd ar y polisi hwn gan y **Corff Llywodraethu** ac mae'n adlewyrchu'r gofynion statudol cyfredol a roddir ar ysgolion trwy ddeddfwriaeth a chanllawiau.

Mae'r polisi hwn:

- yn cyfeirio at hawliau dynol a pholisi cyfreithiol sy'n berthnasol i'r sector a'r lleoliad;
- yn sicrhau bod diffiniadau o ymyrraeth gyfyngol ar gael yn hawdd ac wedi'u gwreiddio trwy fecanweithiau datblygu'r gweithlu, negeseuon sefydliadol a pholisi;
- â phrotocolau clir a chanllawiau llywodraethu ar gyfer defnyddio ymyrraeth gyfyngol fel dewis olaf a chyfiawnadwy, ac ar gyfer monitro pobl yn ystod ac ar ôl eu defnyddio, gan gynnwys y gofynion ar gyfer gwiriadau meddygol;
- yn dweud yn glir nad yw byth yn dderbyniol defnyddio gorfodaeth a mathau eraill o ataliad cymdeithasol a seicolegol;
- yn cynnwys canllawiau ar asesiadau risg, y mae'n rhaid eu cynnal cyn defnyddio unrhyw ymyrraeth gyfyngol. Dylid ystyried y risgiau i'r unigolyn ymlaen llaw, ac ni ddylid defnyddio unrhyw arfer cyfyngol, sy'n cynyddu'r risg i'r unigolyn. Dylid asesu amgylchedd yr unigolyn o ran risg i sicrhau nad oes dim ynddo a fyddai'n achosi risg yn ystod y defnydd o ymyrraeth gyfyngol ;
yn darparu canllawiau clir ar gyfer cofnodi gwybodaeth ar ôl defnyddio unrhyw ymyrraeth gyfyngol mewn perthynas â'r hyn sydd i'w gofnodi pryd, gan bwy, a phwrpas y cofnod:
- yn dweud yn glir y dylid cofnodi unrhyw ddefnydd o ymyrraeth gyfyngol hyd yn oed os caiff y defnydd ei ragnodi mewn cynllun personol;
- yn amlinellu'r broses ar gyfer casglu'r data hwn o'u holl wasanaethau. Dylai fod ar gael i sefydliadau allanol ar gais;
- yn darparu canllawiau ar gyfer ceisio caniatâd ar gyfer defnyddio ymyrraeth gyfyngol fel y dewis olaf a chyfiawnadwy i atal niwed i unigolyn neu eraill.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)



3. Diben

Sefydlu gofynion a chyfrifoldebau cyfreithiol yr ysgol ac egluro ein dull o ddefnyddio grym rhesymol ac ymyrraeth gorfforol gyfyngol i'r holl staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, asiantaethau allanol a'r gymuned ehangach.

Galluogi staff i reoli digwyddiadau yn hyderus a chyson, gan sicrhau bod eu hymateb yn ategu'r dull gweithredu cyffredinol tuag at werthoedd ac ethos yr ysgol, gan sicrhau'r budd gorau i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.

Atgyfnerthu a diogelu iechyd a diogelwch cymuned gyfan yr ysgol ac eraill sy'n defnyddio'r ysgol.

Bwriad y polisi hwn yw hyrwyddo arferion a mesurau diogel a fydd yn arwain at leihau ymyrraeth gyfyngol.

Mae'r polisi yn ceisio sicrhau, lle defnyddir ymyrraeth gyfyngol, fel dewis olaf a chyfiawnadwy, i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, bod hyn yn cael ei lywio gan gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn cyd-destun y lleoliad ac mewn ffordd sy'n diogelu'r unigolyn, y rhai y mae'n rhyngweithio â nhw, a'r rhai sy'n rhoi cymorth iddynt.

Er mwyn cyflawni nodau'r polisi hwn, mae'r ysgol yn canolbwyntio ar:

- Hyrwyddo hawliau dynol
- Atal yr angen am ymarfer cyfyngol trwy ddatblygu strategaethau lleihau.
- Gweithio gydag unigolion drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion unigol, mewn ffordd sy'n lleihau'r tebygolrwydd o sefyllfaoedd sy'n codi lle defnyddir ymyrraeth gyfyngol fel dewis olaf a chyfiawnadwy.
- Bod mesurau ar waith lle mae sefyllfaoedd yn codi lle defnyddir ymyrraeth gyfyngol fel dewis olaf a chyfiawn, i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, bod cynllunio a hyfforddiant blaenorol yn eu lle i sicrhau diogelwch pawb dan sylw.

4. Egwyddorion

Wrth ddefnyddio ymyrraeth gyfyngol, mae pob aelod o gymuned ein hysgol yn rhannu egwyddorion a disgwyliadau cyffredin wedi'u llywio gan ddull sy'n mynd ati i hyrwyddo hawliau dynol fel y nodir yng [Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (UNCRC); a [Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau](#) (UNCRPD) Dylai'r defnydd o ymyrraeth gyfyngol fod yn unol â'r egwyddorion a ddisgrifir yn y Polisi Hawliau Dynol ar Atal a gynhychir gan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#).



'Hawliau dynol yw'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bob person yn y byd. Maent yn seiliedig ar egwyddorion craidd fel urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac ymreolaeth. Mae hawliau dynol yn berthnasol i fywyd bob dydd. Maent yn amddiffyn rhyddid pobl i reoli eu bywyd eu hunain, i gymryd rhan yn effeithiol mewn penderfyniadau a wneir amdanynt sy'n effeithio ar eu hawliau, ac i dderbyn gwasanaethau teg a chyfartal'.

Dylai'r defnydd o'r holl ymyrraeth gyfyngol gan gynnwys ataliaeth fod yn unol â chyhoeddiad EHRC *'Polisi Hawliau Dynol ar gyfer ataliaeth: egwyddorion ar gyfer defnydd cyfreithlon ymyriadau cyfyngol corfforol, cemegol, mecanyddol a chymhellol'* (2019). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am wahanol fathau o ataliad a'u defnydd cyfreithlon fel dewis olaf y gellir ei gyfiawnhau yn unol ag arfer wedi'i lywio gan ddull hawliau dynol.

Rydym yn cydnabod y gall ymyrraeth gyfyngol gael effaith ar les y bobl hynny sy'n ddarostyngedig i'r arferion hyn, yn ogystal â'r rhai sy'n eu gweithredu a'u tystiolaethu. Gall hyn gynnwys niwed corfforol, trawma neu ail-drawmateiddio.

Mae gan holl staff yr ysgol hawl cyfreithiol i ddefnyddio grym rhesymol i atal disgyblion rhag cyflawni trosedd, anafu eu hunain neu eraill, difrodi eiddo, a chynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

Dylai'r ffocws fod ar atal, cyn belled ag y bo modd, yr angen i ddefnyddio grym rhesymol ar ddisgyblion, drwy greu hinsawdd ysgol dawel, drefnus a chefnogol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Dylai'r defnydd o rym fod yn gam olaf a chyfiawnadwy yn unig a dylai ysgolion leihau'r posibilrwydd y bydd angen grym. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl ac mewn amgylchiadau o'r fath mae angen i staff fod yn ymwybodol o sensitifrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o gyswllt corfforol â disgyblion.

Ni ddylai ysgolion fyth geisio atal gallu staff i ddefnyddio grym rhesymol trwy fabwysiadu polisi 'dim cyswllt'. Mae'r hawl i ddefnyddio grym rhesymol yn helpu i sicrhau diogelwch disgyblion, staff ac ysgolion a'r risg gyda pholisi dim cyswllt yw y gallai olygu bod aelod o staff yn ymddwyn yn groes i'w ddyletswydd gofal tuag at ddisgybl, neu eu hatal rhag cymryd camau sydd eu hangen i atal disgybl rhag achosi anaf i eraill.

Ni ddylai unrhyw unigolyn, o dan unrhyw amgylchiadau, gael ei atal mewn sefyllfa wyneb i lawr. Ym mhob sefyllfa, rhaid i ymddygiad a chamau gweithredu fod yn rhesymol ac yn gymesur o ran gweithredu, grym a hyd. Mae'n rhaid iddo hefyd ddiogelu a gwarchod unigolion naill ai oddi wrthynt eu hunain neu eraill.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

5. Arweinyddiaeth

Dim ond trwy ddull sefydliadol cyfan y gellir gweithredu'r lleihad mewn ymyrraeth gyfyngol a'i chynnal a'i chadw'n briodol, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth gref. Dylai negeseuon am



leihau fod yn glir ar bob lefel, drwy gydol yr holl systemau a pholisïau sefydliadol a rhaglenni datblygu staff.

Rhaid i arweinwyr ar bob lefel ddarparu cyfleoedd i staff a phlant a phobl ifanc fyfyrïo, asesu a nodi unrhyw anghenion dysgu a/neu gymorth. Bydd UDRh yr ysgol yn wylidwrus am arwyddion o ddiwylliannau cyfyngol yn datblygu. Byddwn yn hwyluso trafodaeth reolaidd am ymyrraeth gyfyngol ac yn creu amgylchedd nad yw'n beio lle gellir trafod a chwestiynu ymarfer.

Mae gan arweinyddiaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu ddyletswydd gofal tuag at ymarferwyr ac mae'n cydnabod y gall straen yn y gweithle gael effaith andwyol ar ansawdd ymarfer. Mae mesurau priodol i gefnogi lles staff ar waith drwy Bolisi Llesiant yr ysgol.

6. Eiriolaeth

Mae'r polisi hwn yn ceisio hyrwyddo ymagwedd wedi ei seilio ar hawliau plant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau am y cymorth a'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a'r canlyniadau maent am eu cyflawni. Mae hefyd yn golygu cynllunio i ddiwallu anghenion mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n hyrwyddo llesiant a'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc wireddu eu hawliau.

Un o oblygiadau hyn ar gyfer arfer da yw'r angen i gynllunio gyda, ac ar gyfer plant a phobl ifanc, fel bod mesurau ar waith i gyfyngu ar y defnydd o ymyrraeth gyfyngol. Dylai'r dull o gynnwys y bobl arwyddocaol yn eu bywydau wrth gynllunio fod yn ystyrlon ac yn briodol i'r oedran, y gallu a'r anghenion cyfathrebu.

Mae hyn yn golygu darparu cymorth ychwanegol i rai plant a phobl ifanc drwy eiriolwr i sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl i blant a phobl ifanc gael cynnig gweithredol o eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol (IPA). Mae'r hawl hon yn berthnasol pan fyddant yn derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Mae'r 'cynnig gweithredol' yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r plentyn gan y Gwasanaeth Eiriolaeth. Fel lleoliad yng Nghyngor Gwynedd darperir hyn drwy SNAP Cymru.

7. Bydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn:

- gwella ansawdd bywyd fel bod gan blant a phobl ifanc lai o angen defnyddio ymddygiad sy'n herio.
- defnyddio offeryn asesu i ddeall beth mae ymddygiad yr unigolyn yn ei olygu.
- defnyddio ymyriadau sy'n parchu urddas yr unigolyn ac yn cefnogi lleihau ymyrraeth gyfyngol .



- dylai fod gan unrhyw un sydd mewn perygl o ymyrraeth gyfyngol ganllawiau sy'n cynnwys ystod o strategaethau rhagweithiol fel bod ganddynt fynediad at y math o gymorth sydd ei angen arnynt; a hefyd strategaethau adweithiol, a luniwyd i ddelio ag ymddygiadau sy'n herio pan fyddant yn digwydd, gan gynnwys lleihau risg.
 - Mae **strategaethau rhagweithiol** yn cynnwys newidiadau amgylcheddol, gwneud yr amgylchedd yn fwy addas i'r unigolyn, ac addysgu sgiliau neu ymddygiadau newydd, fel bod ymddygiad sy'n herio yn dod yn llai tebygol.
 - Mae **strategaethau adweithiol** yn cynnwys dewisiadau amgen person-benodol i ddefnyddio cyfyngiadau, er enghraifft, tynnu sylw, dad-ddwysáu, gwrandio gweithredol, neu dynnu'n ôl. Mae'r strategaethau hyn yn rhan ddefnyddiol o'r dull rhagweithiol o gynllunio ymlaen llaw ar gyfer cymorth unigol.

Mae bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb. Mae hyn oherwydd y byddai'n dod o fewn y diffiniad o gosb gorfforol, a ddiddymwyd gan Adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Er mwyn bod yn effeithiol ac yn llwyddiannus, mae gennym ymagwedd ysgol gyfan. Gall hyn gynnwys addasu amgylchedd cyfan yr unigolyn i ddiwallu anghenion yn well yn ogystal â sicrhau eu bod yn gallu datblygu sgiliau newydd a chael mwy o gyfleoedd.

Byddwn yn ceisio arweiniad gan ymarferydd meddygol i sicrhau nad oes rhesymau iechyd a fyddai'n cynyddu'r risg o ddefnyddio rhai cyfyngiadau.

Mae'r UDRh yn cefnogi'r dulliau hyn a bydd yn monitro ac yn adolygu'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni fel y bwriadwyd.

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg wedi'i hymgorffori yn ein cynllunio a'n darpariaeth a chynhigir gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn unol ag unrhyw newidiadau mewn polisi deddfwriaeth sy'n berthnasol i ysgolion a lleoliadau addysg, lleoliad(au) a grwpiau o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

8. Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

Er bod Adran 93, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn cyfeirio'n benodol at "rym" mae hyn yn cwmpasu'r ystod eang o strategaethau sy'n cynnwys rhywfaint o bŵer corfforol i atal disgyblion rhag brifo eu hunain neu eraill, niweidio eiddo neu achosi anhrefn. Mae'r amrediad yn ymestyn o hebrwng disgybl i ddiogelwch gyda llaw neu fraich, hyd at amgylchiadau eithafol lle mae angen atal disgybl er mwyn atal trais neu anafu eu hunain neu eraill, ac mae'n galluogi



staff ysgol i ddefnyddio'r cyfryw rym sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau i atal disgybl rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd (neu, i ddisgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, yr hyn a fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn);
- achosi anaf personol i unrhyw berson, neu ddifrod i eiddo unrhyw berson (gan gynnwys y disgybl ei hun);
- rhagfarnu cynnal trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, boed hynny yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall .

Diffinnir y staff y mae'r pŵer hwn yn gymwys iddynt yn adran 95 y Ddeddf.

Y rhain yw:

- unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol, ac unrhyw berson arall y mae'r pennaeth wedi'i awdurdodi i fod â rheolaeth neu â gofal am ddisgyblion.

Mae hyn yn cynnwys:

- (i) staff cymorth y mae eu swydd fel arfer yn cynnwys goruchwylio disgyblion fel cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio.
- (ii) nid yw'n cynnwys swyddogion (disgyblion) yr ysgol.

Rhaid i'r rhai sy'n arfer y pŵer i ddefnyddio grym hefyd ystyried unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd penodol a allai fod gan ddisgybl. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan ysgolion ddyletswyddau allweddol:

- peidio â thrin disgybl anabl yn llai ffafriol, oherwydd ei anabledd, na disgybl nad yw'n anabl;
- peidio â thrin disgybl anabl yn anffafriol oherwydd rheswm sy'n gysylltiedig â'i anabledd, heb gyfiawnhad;
- peidio â chymhwyso darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n rhoi, neu a fyddai'n rhoi disgybl anabl dan anfantais benodol o'i gymharu â disgybl nad yw'n anabl, heb gyfiawnhad; a chymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgybl anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgybl nad yw'n anabl (a elwir yn ddyletswydd addasiadau rhesymol).

9. Ymyrraeth gyfyngol

Gall y term ymyrraeth gyfyngol fod yn berthnasol i nifer o wahanol weithredoedd. Nid yw ymarfer cyfyngol o reidrwydd yn gofyn am ddefnyddio grym, gall hefyd gynnwys gweithredoedd ymyrraeth, er enghraifft gosod bwrdd ar draws drws.



Y ffordd orau o osgoi ymyrraeth gyfyngol yw gweithio'n ataliol a diwallu anghenion cyn i argyfwng godi. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau prin pan fydd angen defnyddio ymyrraeth gyfyngol i atal niwed i unigolyn neu eraill.

Mae gan unrhyw ddefnydd o arfer cyfyngol y potensial i ymyrryd â hawliau dynol sylfaenol unigolyn ac mae gan bawb ddyletswydd i barchu hawliau dynol. Fel ysgol, rydym yn sicrhau bod ymyrraeth gyfyngol yn cael ei defnyddio fel dewis olaf a chyfiawn, o fewn y polisi hwn i gefnogi hawliau dynol.

Dim ond o fewn y polisiau cyfreithiol priodol y defnyddir ymyrraeth gyfyngol, a thrwy hyfforddiant, rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o bamedrau'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n berthnasol i'n dysgwyr ac yn gweithredu o fewn y cyfyngiadau. Rhaid i bob gweithred o arfer cyfyngol fod yn gyfreithlon, yn gymesur â'r opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael.

Nid yw hi byth yn gyfreithlon defnyddio ataliad i fychanu, diraddio neu gosbi pobl.

Mae amgylchiadau rhai plant a phobl ifanc yn eu gwneud yn arbennig o agored i droseddau yn erbyn eu hawliau dynol. Gall hyn fod o ganlyniad i'w hoedran, eu gallu neu oherwydd gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae plant yn agored i niwed oherwydd eu hoedran, maent yn datblygu'n gorfforol ac yn seicolegol, sy'n eu gwneud yn arbennig o agored i drawma a niwed, o ganlyniad i ymyrraeth gyfyngol.

Efallai y bydd pobl sydd wedi profi trawma yn y gorffennol, sy'n profi rhwystrau cyfathrebu, neu sydd â gwahaniaethau eraill, yn teimlo bod rhai mathau o ymyrraeth gyfyngol yn arbennig o ofidus ac efallai y byddant yn gweld rhai sefyllfaoedd yn arbennig o heriol a niweidiol.

10. Cynllunio, adolygu ac adrodd

Rhaid i ymyrraeth gyfyngol fod yn rhan o ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y person yn gyffredinol, wedi'i deilwra'n benodol i'r unigolyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd mewn mwy o berygl oherwydd oedran, bregusrwydd, problemau iechyd, hanes trawma neu ffactorau risg eraill.

Dylai unrhyw ddefnydd arfaethedig o ymyrraeth gyfyngol fod yn ddewis olaf a chyfiawnadwy yng nghanllawiau cefnogi ymddygiad yr unigolyn yn eu cynllun unigol a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dylai fod yn glir o fewn y canllawiau cefnogi ymddygiad pam mai'r ymyrraeth honno sydd fwyaf priodol iddyn nhw.

Bydd unrhyw ddefnydd o ymyrraeth gyfyngol nad yw yng nghynllun personol yr unigolyn yn sbarduno adolygiad ar unwaith.



Mae canllawiau yng nghynllun personol yr unigolyn ar sut y bydd y defnydd o'r ymyrraeth gyfyngol yn cael ei leihau yn y dyfodol. Dylai penderfyniadau ynghylch defnyddio ymyrraeth gyfyngol ystyried unrhyw ffactorau diwylliannol neu grefyddol unigolion.

Dylid defnyddio ymyrraeth gyfyngol yng nghyd-destun perthynas therapiwtig gyffredinol ac ni ddylid ei defnyddio fel cosb.

Mae plant a phobl ifanc mewn perygl penodol yn gorfforol ac yn seicolegol a dylid dilyn yr egwyddorion ar gyfer cynnal hawliau plant.

Ni ddylid byth ddefnyddio ymyrraeth gyfyngol i wneud iawn am brinder staff neu anawsterau adnoddau eraill.

Yn dilyn unrhyw achosion o ymyrraeth gyfyngol sy'n cael eu defnyddio, dylid hysbysu'r bobl/cyrff perthnasol, yn unol â'r cynllun personol. Dylid hysbysu aelodau teulu/gofalwyr di-dâl oni bai bod y cynllun personol yn nodi fel arall.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

11. Dogfennaeth i gynllunio, cofnodi ac adrodd

Gellir dod o hyd i'r dogfennau a ddefnyddir yn atodiadau'r polisi.

12. Neilltuaeth

Bydd achlysuron pan fydd angen i'n disgyblion gael mynediad i ardaloedd oddi wrth sŵn neu bobl eraill. Mae'n bwysig bod staff yn ymgyfarwyddo â'r ardaloedd tawelach sy'n cael eu darparu, a allai gynnwys gofod awyr agored.

Weithiau mae arferion y cyfeirir atynt fel amser allan, ymlacio neu ynysu, gan gynnwys defnyddio pebyll synhwyaidd, yn bodloni'r diffiniad o wahaniad os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei roi mewn ystafell ac nad yw'n gallu gadael o'i ewyllys rydd ei hun.

Gall defnyddio 'Amser Allan' fod yn strategaeth ddad-ddwysáu effeithiol wrth reoli ymddygiad yn gadarnhaol. Gall hon fod yn strategaeth gynlluniedig neu heb ei chynllunio, a gellir ei chynnal mewn nifer o amgylcheddau amrywiol e.e. gardd, llyfrgell, maes chwarae, ystafell amser allan.

Os bydd disgybl yn mynd gydag aelod o staff i ystafell dawel i ffwrdd o ddigwyddiad, rhaid i'r aelod staff aros gyda'r disgybl yn yr ystafell neu'r ardal dawel nes bod y disgybl yn dawel ac yn hunanfeddiannol. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall fod yn fwy buddiol i ddisgyblion fod gydag aelod staff sy'n gyfarwydd iddynt. Unwaith y bydd y disgybl yn dawel ac yn ddiogel, gall yr aelod staff adael y disgybl heb gwmni, er nad yw'n cael ei fonitro, yn yr ystafell ond ni ddylid cloi'r drws.

Wrth ddewis defnyddio 'Amser Allan' fel strategaeth, mae angen ystyried y pwyntiau canlynol: yr amgylchedd 'Amser Allan' - rhaid i leoliad y plentyn fod yn hysbys bob amser i oedolyn



goruchwyliol, er y gellir gwneud yr oruchwyliaeth hon o bell, yn dibynnu ar amgylchiadau disgyblion unigol a barn broffesiynol.

Rhaid ystyried a monitro hyd 'Amser Allan' yn ofalus i sicrhau nad yw'r plentyn yn mynd i ormod o ofid. Rhaid monitro ei ddefnydd cyffredinol yn ofalus. Mae'n rhaid i bob ystafell neu ardal dawel fod â digon o olau dydd, mynediad ac allanfa ac ni ddylai fod mewn man cyfyng a allai beri i'r disgybl deimlo'n gaeth neu'n ofnus ac felly cynyddu unrhyw bryder, ymddygiad ymosodol neu drais a allai fod wedi bod yn amlwg yn y digwyddiad gwreiddiol.

Dylai'r defnydd o ystafelloedd tawel hefyd fod yn gyson â pholisïau'r ysgol ar ddiogelu ac iechyd a diogelwch. Rhaid cadw cofnodion priodol o'r defnydd o ystafelloedd o'r fath ac unrhyw fath o ataliad corfforol sydd wedi'i ddefnyddio.

Ni ddylai plentyn gael ei roi mewn ystafell dan glo, mewn unrhyw amgylchiadau, fel ymyrraeth 'Amser Allan'. Gall y llysoedd ystyried ei bod yn drosedd/yn torri hawliau dynol plentyn i gloi plentyn mewn ystafell ac eithrio mewn argyfwng pan fydd defnyddio ystafell dan glo yn fesur dros dro wrth geisio cymorth, er enghraifft. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai oedolyn oruchwylio'r plentyn drwy gydol yr amser. Ni ddylid gosod disgyblion mewn ystafell na allant adael o'u gwirfodd er mwyn eu cosbi mewn unrhyw achos. '(0097/2013).

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

13. Ystyriaethau ymyrraeth gyfyngol

13.1 Ymarfer Barn Broffesiynol

Mae barn broffesiynol yn allweddol i benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol i sicrhau canlyniadau mwy diogel i unigolion ac eraill mewn sefyllfaoedd sy'n peri risg o niwed difrifol. Lle bo'r potensial yn bodoli ar gyfer defnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol, rhaid cydbwysu nifer o ffactorau pwysig. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth am yr unigolyn a'i hanes
- gwybodaeth am effaith ac effeithiau technegau a dulliau ymyrraeth gorfforol cyfyngol
- sicrhau lles a diogelwch pawb sy'n gysylltiedig
- sicrhau tryloywder ac atebolrwydd proffesiynol
- sicrhau bod pob gweithred yn briodol ac yn dderbyniol o fewn arferion proffesiynol cydnabyddedig, cyfraith sifil a chyfraith droseddol.

13.2 Amgylchiadau Pan all Ymyrraeth Gorfforol fod yn briodol

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellir defnyddio ymyrraeth gorfforol:

- Atal disgybl rhag ymosod ar aelod o staff, neu ddisgybl arall,
- Atal disgybl rhag achosi niwed difrifol a bwriadol i eiddo;



- Atal disgybl rhag achosi anaf neu ddifrod drwy ddamwain, drwy chwarae garw, neu drwy gamddefnyddio deunydd neu wrthrychau peryglus;
- Sicrhau bod disgybl yn gadael ystafell ddosbarth pan fo'r disgybl yn gwrthod dilyn cyfarwyddyd yn gyson i wneud hynny;
- Atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar wers; neu
- Atal disgybl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n amharu'n ddifrifol ar ddigwyddiad chwaraeon ysgol neu ymweliad ysgol.

Dylai'r ffocws fod ar atal, cymaint ag y bo modd, yr angen i ddefnyddio grym ar ddisgyblion, trwy greu hinsawdd ysgol dawel, drefnus a chefnogol sy'n lleihau'r risg a'r bygythiad o drais o unrhyw fath. Dim ond fel y dewis olaf y dylid defnyddio grym, dylai ysgolion leihau'r posibilrwydd o fod angen defnyddio grym. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl ac mewn amgylchiadau o'r fath ac mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r sensitifrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw fath o gyswllt corfforol â disgyblion.

13.3 *Strategaethau i'w hystyried heblaw am ddefnyddio grym.*

Enghreifftiau

- Defnyddio ystod o strategaethau dad-ddwysáu, yn enwedig y rhai y nodwyd eu bod yn effeithiol drwy Gynllun cefnogaeth/Fy Nghynllun Diogelwch a Chefnogaeth (os oes un i'w gael)
- Rhoi dewis cyfyng o leoliadau i'r disgybl aflonyddgar fynd iddynt
- Rhoi cyfarwyddiadau clir
- Newid wyneb – galw aelod o staff y gwyddys bod ganddo berthynas gadarnhaol â'r disgybl
- Caniatáu amser 'cymryd' gan ganiatáu cyfle cadw wyneb'
- Cael gwared â'r gynulleidfa, h.y. gofyn i ddisgyblion eraill adael yr ystafell

Dylid ond defnyddio ataliaeth gydag ystyriaeth i egwyddorion y cyfyngiad lleiaf, a'r dewis olaf a chyfiawnadwy. Dyna'r dull lleiaf cyfyngol gyda'r defnydd lleiaf o rym (yn gymesur â'r risg) am yr isafswm amser. Dim ond os yw'n hollol angenrheidiol y dylid eu defnyddio (os oes gwir gred bod niwed yn debygol o ddigwydd i'r unigolyn neu eraill os na chaiff ei ddefnyddio, ac os rhoddwyd cynnig ar ddulliau llai cyfyngol eraill a'u bod wedi methu). Ni ddylid ar unrhyw gyfrif defnyddio dulliau atal sy'n achosi poen yn fwriadol.

13.4 *Gweithdrefnau ac ystyriaethau ymarferol yn ystod digwyddiadau penodol*

Lle bynnag y bo'n ymarferol, disgwylir i staff:

- Ddefnyddio dull cyson a phwyllog
- Nodi beth mae'r disgybl yn ei wneud o'i le. Atgoffa'r disgybl o'r rheol a'r ymddygiad yr hoffech ei weld. Creu disgwyliad cadarnhaol
- Gofynnwch am gymorth gan gydweithwyr eraill os yw hynny'n briodol



- Mae gan staff sy'n ymwybodol fod aelod arall o staff yn ymyrryd yn gorfforol â disgybl, gyfrifoldeb i fod yn bresennol, ac i gynnig cefnogaeth a chymorth pe bai angen gwneud hyn.
- Ceisiwch dawelu'r sefyllfa ar lafar ac atal pethau rhag gwaethygu
- Ceisiwch symud y disgybl oddi wrth gynulleidfa o'u cyfoedion
- Ceisiwch gyfathrebu'n gadarnhaol â'r disgybl drwy gydol y digwyddiad
- Mewn modd mor dawel â phosibl, eglurwch mai'r rheswm dros ymyrryd yw cadw'r disgybl ac eraill yn ddiogel
- Gwnewch yn glir y bydd yr ymyrraeth yn dod i ben cyn gynted ag y bydd y disgybl yn tawelu ac mae'r asesiad risg yn dangos nad oes ei hangen mwyach
- Os nad yw'n bosibl rheoli disgybl eithafol rhag y perygl o'ch anafu chi neu o anafu eraill,, tynnwch y disgyblion eraill a allai fod mewn perygl o'r sefyllfa a galw am gymorth.

Mae'n arfer da:

- Rhoi'r argraff fod popeth dan reolaeth gennych
- Rhoi'r argraff nad ydych wedi colli eich tymer neu nad ydych yn gweithredu oherwydd dicter neu rwystredigaeth
- Rhoi'r argraff nad ydych yn ceisio cosbi'r disgybl
- Galw am gymorth a chefnogaeth yn unol â lefel y risg.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

14. Dyletswydd Gofal

Wrth ddelio â sefyllfaoedd lle mae angen gweithredu mewn sefyllfa o berygl yn amddiffynol, nid yw'r ddyletswydd gofal yn awgrymu bod anghenion un unigolyn yn diystyru anghenion diogelwch eraill (gan gynnwys aelodau staff) sydd mewn perygl. Mae angen rheoli ymddygiad bygythiol neu fyrbwyll er mwyn lleihau niwed i bawb dan sylw. Rhaid i unrhyw gamau sy'n cynnwys cyfyngu ar ddewis a symudiad fod yn gymesur â dyletswydd gofal proffesiynol ac yn gymesur â lefel y risg a gyflwynir.

Mae dyletswydd gofal y gweithiwr proffesiynol yn ymestyn i sicrhau bod unigolyn yn cael ei fonitro a'i ofalu amdano drwy gydol unrhyw ddigwyddiad. Mae ymreolaeth, sy'n gymesur â'u hoedran a'u dealltwriaeth, yn cael ei ddychwelyd iddynt cyn gynted ag y bo'n ddiogel gwneud hynny. Ni ddylai'r disgwyliadau a osodir ar staff sy'n defnyddio grym rhesymol neu ymyrraeth gorfforol gyfyngol fynd yn groes i ofynion iechyd a diogelwch trwy roi eu hunain neu eraill mewn perygl diangen.

15. Adolygu a chefnogaeth ar ôl digwyddiad

Gall defnyddio ataliaeth ac ymyraethau cyfyngol eraill sbarduno atgofion trawmatig i blant a phobl ifanc, a dylid bod yn ofalus i ddarganfod pa gymorth sydd ei angen arnynt ar ôl digwyddiad sydd wedi golygu ymyrraeth gyfyngol.



Mae'r un mor debygol y bydd gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau heriol yn gweld rhai agweddau o'u gwaith yn llawn straen ac y byddant yn profi ymyraethau cyfyngol fel rhai trawmatig. Mae angen dull unigol yn y ddau achos, gan y bydd ffactorau personol a sefydliadol yn dylanwadu ar lefel y gofid mae pobl yn ei brofi.

Mae darparu'r cymorth cywir ar ôl digwyddiad yn debygol o gael dylanwad cadarnhaol ar leihau ymyraethau cyfyngol drwy ddylanwadu'n bositif ar y broses o atgyweirio perthnasoedd ymddiriedus ac ailsefydlu'r teimlad o ddiogelwch. Fodd bynnag, mae angen ei weithredu'n dda ac ochr yn ochr â strategaethau eraill fel rhan o ddull sefydliadol cyfan o leihau:

Cymorth ar ôl digwyddiad: sylw i les corfforol ac emosiynol yr unigolion dan sylw

Adolygiad ar ôl digwyddiad: i ddysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

16. Plant sy'n derbyn gofal

Dylai unrhyw blentyn sydd mewn gofal, ynghyd â'u gofalwyr, dderbyn y wybodaeth berthnasol ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio grym rhesymol neu ymyrraeth gorfforol gyfyngol sydd ar gael iddynt yn ogystal â gwybodaeth am y system gwyno a'r cymorth sydd ar gael gan eiriolwr. Os defnyddiwyd grym rhesymol neu ymyrraeth gorfforol gyfyngol, dylid trafod hyn yn ystod unrhyw broses adolygu statudol wrth ystyried a yw lleoliad yn gallu diwallu anghenion plentyn a dylid adlewyrchu'r drafodaeth hon yng nghynllun gofal y plentyn. Dylai fod cofnod ysgrifenedig clir o'r digwyddiadau hyn yn y ffeil gwaith cymdeithasol yn unol â gweithdrefnau cofnodi'r awdurdod.



17. Datblygiad staff

Mae'r ysgol yn derbyn hyfforddiant wrth ddatblygu sgiliau i weithio o fewn y polisi hwn. Mae'r staff yn ymgymryd â'r hyfforddiant a ddarperir drwy Gyngor Gwynedd. Gall ysgolion gael mynediad at hyfforddiant CPI-Ymyrraeth Diogelwch .

Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- archwilio agweddau a phriodoleddau tuag at ymddygiadau sy'n cael eu disgrifio fel rhai heriol;
- deall ystyr ymddygiadau a ddisgrifir fel rhai 'heriol' a myfyrio ar yr agweddau a'r rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y ffordd y mae ymarferwyr yn deall ymddygiad;
- hawliau dynol a sut maent yn ymwneud â defnyddio ymyrraeth gyfyngol ;
- arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a hawliau unigol sy'n allweddol i gynllunio sut rydym yn cefnogi ein dysgwyr;
- dealltwriaeth o ofal sy'n seiliedig ar drawma a thrawma ei hun;
- codi ymwybyddiaeth o'r trawma y gall pobl sy'n destun ymyrraeth gyfyngol a'r rhai sy'n destun i ymyrraeth gyfyngol ei brofi;
- y sefyllfa gyfreithiol;
- ymyriadau rhagweithiol sy'n gwella lles ac yn atal y defnydd o ymyrraeth gyfyngol ;
- technegau ymyrraeth gyfyngol.

Mae cynnwys yr hyfforddiant hefyd yn cyfeirio at bolisiau diogelu a chanu'r gloch fel bod pobl yn deall sut i ymateb os ydynt yn credu bod hawliau rhywun yn cael eu torri a'u bod yn cael eu rhoi mewn perygl.

Mae'r hyfforddiant mae staff yr ysgol yn ei dderbyn yn sicrhau plant a phobl ifanc bod ymateb cyson i gymorth gydag ymddygiad a'r defnydd o ymyrraeth gyfyngol .

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

18. Cofnodi'r defnydd o ymyrraeth gyfyngol a defnyddio data i wella ymarfer

Mae gan uwch arweinwyr wybodaeth am ystod a maint yr ymyrraeth gyfyngol a ddefnyddir yn yr ysgol drwy gofnodi ac adolygu data yn seiliedig ar achosion o'r fath.

Mae arferion casglu data da yn elfen hanfodol mewn unrhyw gynllun i leihau ymyrraeth gyfyngol ac yn hyrwyddo tryloywder.

Mae data'n cael ei gasglu o'r log ymyrraeth gyfyngol a'r ffurflenni cofnod o rym (atodiad 1)

Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys:

- Nifer y digwyddiadau
- Amllder a hyd y mesurau cyfyngol unigol

Mae'r data hwn yn cael ei adolygu i chwilio am batrymau gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i:



- Rhywedd
- Oed
- Nodweddion sy'n cael eu gwarchod

Dylai unrhyw ddata a gesglir fod â phwrpas clir ac yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU.

Fel rhan o'n cynllun i leihau ymyrraeth gyfyngol, mae'r wybodaeth a gofnodir gennym yn cynnwys:

- Y math o arfer cyfyngol a ddefnyddir;
- Y rheswm/rhesymau dros ddefnyddio arfer cyfyngol;
- Lle a phryd y defnyddiwyd yr arfer cyfyngol;
- Hyd yr arfer cyfyngol;
- Yr effaith hysbys ar yr unigolyn, gan gynnwys unrhyw anafiadau, ac unrhyw risgiau i'w llesiant corfforol neu feddyliol;
- Nodweddion gwarchodedig yr unigolyn (gan gynnwys oedran, rhywedd, rhyw, anabledd, wedi'u dadansoddi yn ôl math y nam, a hil);
- Canlyniad unrhyw adolygiad o ddigwyddiadau, gan gynnwys unrhyw fesurau a weithredir i osgoi neu leihau ymyrraeth gyfyngol a'r risg o niwed yn y dyfodol;
- Rhan yr unigolion yn yr adolygiad;
- Cofnod i gadarnhau bod aelodau perthnasol y teulu a'r gofalwyr wedi cael gwybod a phryd y digwyddodd hyn.

19. Diogelu

- Mae staff yr ysgol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu ac yn gyfarwydd â pholisi a gweithdrefnau diogelu'r sefydliad.
- Rhaid rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am faterion diogelu yn unol â'r gofynion a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau perthnasol:
- [Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1: Cyflwyniad a Throsolwg](https://gov.wales/safeguarding-people-introduction)
<https://gov.wales/safeguarding-people-introduction>
- Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5: Ymdrin ag Achosion Unigol i Warchod Plant sydd mewn Risg <https://gov.wales/safeguarding-children-risk-abuse-or-neglect>

Pan fo unrhyw arwydd bod ymyrraeth gyfyngol yn cael ei defnyddio'n amhriodol, rhaid rhoi gwybod am hyn fel pryder diogelu. Mae staff yr ysgol hefyd yn cael gwybod am bolisi canu'r gloch y sefydliad.

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

20. Adolygu i leihau ymyrraeth gyfyngol



Bydd yr ysgol yn adolygu ein harferion presennol yn rheolaidd, a gall hyn gynnwys:

- Dadansoddi data ar nifer ymyraethau cyfyngol
- Adnabod patrymau
- Mynd i'r afael â phatrymau
- Adolygu cynlluniau unigol
- Adolygu asesiadau risg

21. Gwybodaeth i rieni

Mae datganiad ar ddefnyddio grym rhesymol ac ymyrraeth gorfforol gyfyngol, ynghyd â'r defnydd o 'Amser Allan' fel strategaethau, ar gael ym mhrosbectws yr Ysgol.

22. Gweithrediad

Bydd yr ysgol yn ystyried y disgwyliadau a nodir yn y Polisi hwn wrth weithredu, monitro ac adolygu.

23. Deddfwriaeth a pholisi

- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010) a149
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (Llywodraeth Cymru, 2012)
- Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth: Llawlyfr i athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd (Llywodraeth Cymru, 2012)
- Ymyriad diogel ac effeithiol - Defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau (Canllaw Llywodraeth Cymru, 2013)
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/safe-and-effective-intervention-use-of-reasonable-force-and-searching-for-weapons.pdf>
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Llywodraeth Cymru, 2015)



- Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 1: Cyflwyniad a Throsolwg <https://gov.wales/safeguarding-people-introduction> Cyflwyniad a Throsolwg (Llywodraeth Cymru, 2016)
- Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2016)
- Anabledd Dysgu - Y Rhaglen Gwella Bywydau (Llywodraeth Cymru; 2018)
- Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5: Ymdrin ag Achosion Unigol i Warchod Plant sydd mewn Risg (Llywodraeth Cymru, 2018)
- Canllawiau Statudol ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

24. Cyfeiriadau deddfwriaethol

Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA 2010) a149

Mae rhai awdurdodau cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Crëwyd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) dan y Ddeddf Cydraddoldeb, a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2011. Disodlodd y PSED ddyletswyddau cydraddoldeb hil, anabledd a rhyw. Mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Nodir y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol yn adran 149 [Deddf Cydraddoldeb 2010](#).

Mae adran 153 y Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau penodol ar gyrrff cyhoeddus penodol yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth. Ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymreig a thrawsffiniol Cymru, mae dyletswyddau penodol wedi'u cwblhau gan Lywodraeth Cymru a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011.

[Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) 2011](#)

Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt;
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau \(CRPD\)](#). Yn arbennig erthyglau:

- 12 (cydnabyddiaeth gyfartal gerbron y gyfraith),
- 14 (rhyddid a diogelwch yr unigolyn),
- 15 (rhyddid rhag artaith, triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol)
- 17 (amddiffyn uniondeb yr unigolyn).



[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.](#) Yn arbennig erthyglau:

- 3 (lles pennaf y plentyn),
- 12 (Yr hawl i gael eich clywed),
- 16 (hawl i breifatrwydd a theulu),
- 19 (amddiffyniad rhag trais a cham-drin corfforol neu feddyliol),
- 23 (plant anabl),
- 28 (disgyblaeth ysgol)
- 37 (amddiffyniad rhag artaith, triniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol).

Cyngor Gofal Cymru (2016) *Dulliau Cadarnhaol: Lleihau ymyrraeth gyfyngol mewn gofal cymdeithasol* . Ar gael yn:

<https://socialcare.wales/resources/positive-approaches-reducing-restrictive-practices-in-social-care?record-language-choice=en-cy>

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Cymdeithas Seicolegol Prydain a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (2007). *Challenging behaviour: a unified approach Clinical and service guidelines for supporting people with learning disabilities who are at risk of receiving abusive or restrictive practices*, [college-report-cr144.pdf](#)

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/human-rights-policy-restraint>

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics> The Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/human-rights-policy-restraint>

[Restraint Reduction Network Training Standards - deunyddiau i'w lawrlwytho - Rhwydwaith Lleihau Ymyrraeth gyfyngol](#)

Hollins, L. (2019) *Use of restraint and force: steps towards greater transparency and accountability. Comment, Mental Health Practice*. Ar gael yn: <https://rcni.com/mental-health-practice/opinion/comment/use-of-restraint-and-force-steps-towards-greater-transparency-and-accountability-143936> (mynediad Ebrill 2019)

[Mae gan The British Institute of Learning Disabilities \(BILD\) daflen wybodaeth ddefnyddiol sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng 'amser allan' ac 'ynysu'](#)
<http://www.bild.org.uk/information/factsheets/>

[Yn ôl i'r Cynnwys](#)



Contents

1. [Glossary](#)
2. [Introduction](#)
3. [Purpose](#)
4. [Principles](#)
5. [Leadership](#)
6. [Advocacy](#)
7. [Benefits of Person Centred Practice](#)
8. [Education and inspections Act 2006](#)
9. [Restrictive practices](#)
10. [Planning, reviewing and reporting](#)
11. [Documentation for planning, recording and reporting](#)
12. [Seclusion](#)
13. [Restrictive practice considerations](#)
14. [Duty of care](#)
15. [Post incident review and support](#)
16. [Children who are looked after](#)
17. [Staff development](#)
18. [Recording the use of restrictive practices and using data to improve practice](#)
19. [Safeguarding](#)
20. [Reviewing to reduce restrictive practices](#)
21. [Information for parents](#)
22. [Implementation](#)
23. [Legislation and policy](#)
24. [Legislative references](#)

Appendices



1. Glossary

- **Person centred:** When we use the term person centred this also means child centred for children.
- **Person or people:** When we use the terms person or people this includes all children and young people (up to the age of 18 years).
- **Restrictive practices:** 'Restrictive practices are a wide range of activities that stop individuals from doing things that they want to do, or encourages them to do things that they don't want to do. They can be very obvious or very subtle.'

